

A man with short brown hair and a light beard is sitting on a stone wall. He is wearing a white long-sleeved shirt over a blue t-shirt, dark jeans, and brown leather boots. He has a large yellow and brown backpack on his back. He is looking towards the camera with a slight smile. The background is a green field with yellow flowers under a clear blue sky. A barbed wire fence is visible behind him.

S4C

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Blwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2019
Cyhoeddwyd Medi 2019

Welsh Language Standards Annual Report

Financial year ending 31 March 2019
Published September 2019

CYFLWYNIAD
Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016.)

Mae dyletswydd ar S4C i gydymffurfio gyda safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn deillio o hyn, mae gan S4C ddyletswyddau sy'n golygu na ddylai drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Bwriad y safonau yw:

- ei gwneud yn eglur beth yw dyletswyddau sefydliadau o ran y Gymraeg;
- ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg, a
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Mae Hysbysiad Cydymffurfio S4C a manylion y safonau sy'n berthnasol iddi ar wefan S4C. Nid yw'r safonau yn cwmpasu pob agwedd o swyddogaethau S4C; mae darlledu wedi ei eithrio o gwmpas y safonau felly nid oes disgwyl i S4C gydymffurfio â safon os yw'r safon honno, ac i'r graddau y mae'r safon honno, yn ymwneud â darlledu.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar y flwyddyn ariannol 2018-19 yn unol â gofynion y safonau.

INTRODUCTION
The Welsh Language (Wales) Measure 2011 established a legal framework to impose duties on specific organisations to comply with standards in relation to the Welsh language through subordinate legislation (Welsh Language Standards (No 2) Regulations 2016.)

S4C has a duty to comply with standards in relation to the Welsh language. Consequently, S4C has duties that mean that it should not treat the Welsh language less favourably than the English language in Wales. The standards are intended to:

- clarify to organisations what their duties are in relation to the Welsh language;
- clarify to Welsh speakers the services they can expect to receive in Welsh, and
- improve quality and consistency in delivering Welsh language services.

S4C's Compliance Notice and details of the standards that apply are available on S4C's website. The standards do not cover all aspects of S4C's functions; broadcasting is excluded from the scope of the standards, therefore S4C is not required to comply with a standard if, and to the extent that, the standard relates to broadcasting.

This annual report covers the 2018-19 financial year in accordance with the requirements of the standards.



S4C

Fel yr unig sianel deledu Gymraeg, mae’r iaith yn ganolbwynt allweddol i holl ddarpariaeth S4C ac mae ganddi le arbennig iawn o ran sicrhau dyfodol y Gymraeg fel iaith hyfyw. Ers 1982 rydym yn darparu ystod eang o gynnwys yn yr iaith Gymraeg sydd yn berthnasol i’n cynulleidfaoedd ac yn parhau i arloesi o ran llwyfannau newydd i gynnwys Cymraeg. S4C yw’r platfform sy’n gyfrifol am gomisiynu’r nifer uchaf o oriau o gynnwys yn yr iaith, ac mae’n cynnig cyfleoedd unigryw i ddefnyddio, mwynhau a chlywed y Gymraeg o ddydd i ddydd, gan gyfrannu’n sylweddol at ffyniant yr iaith a diwylliant ac economi Cymru.

Yn ystod cyfnod adrodd yr adroddiad blynyddol, symudodd S4C ei phencadlys i Ganolfan S4C Yr Egin, datblygiad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Fel y dywedodd Huw Jones, Cadeirydd S4C pan agorwyd y swyddfeydd yn swyddogol: “Mae adleoli i’r Egin yn garreg filltir bwysig yn hanes S4C. Rydym yn hyderus y bydd ... yn datblygu i fod yn rhan allweddol o’r gymuned, yn gartref i’r diwydiannau creadigol, yn ogystal â bod yn hwb enfawr i’r iaith Gymraeg ac i ddiwylliant yr ardal. Bydd presenoldeb cryf yn y gorllewin, yn ogystal ag yn y gogledd a’r brifddinas, yn gymorth i sicrhau bod y gwasanaeth yn un sy’n adlewyrchu anghenion Cymru gyfan yn effeithiol. Rydym yn falch o allu creu swyddi da yn yr ardal.”

Fel sefydliad a chyflogwr, mae S4C yn ymrwymedig i ddatblygu a hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn fewnol ac i helpu’r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio’r Gymraeg fel rhan o’u bywyd bob dydd. Mae bod yn ‘Gymraeg a Chymreig’ yn un o’n gwerthoedd craidd: “Mae’r iaith Gymraeg yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Rydym yn dathlu diwylliant a bywydau pobl ein gwlad trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ac yn annog pawb sy’n ymdrechu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg, beth bynnag fo lefel eu rhuglder.”

Fis Mawrth 2018, cyhoeddodd yr Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) adolygiad annibynnol Euryn Ogwen Williams o S4C. Un o argymhellion yr adolygiad oedd y byddai modd i S4C weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Fis Awst 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ac S4C eu bod wedi cytuno ar egwyddorion cydweithio i gefnogi’r Gymraeg a’r nod o gynyddu’r nifer o siaradwyr. Mae meysydd blaenoriaeth wedi eu pennu sy’n gyffredin i amcanion Llywodraeth Cymru ac S4C – sef cefnogi dysgwyr, addysg, a phlant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae technoleg a chydweithio i sicrhau lle i’r Gymraeg ar lwyfannau a thechnoleg y dyfodol hefyd yn faes ble gall cynnwys ac arbenigedd S4C gynnig budd.

S4C

As the only Welsh language television channel, the language is a key focus for all S4C provision and S4C has a unique role to play in ensuring the future of the Welsh language. Since 1982 we have provided a wide range of Welsh language content that is relevant to our audiences and we continue to innovate in including the Welsh language on new platforms. S4C commissions the most hours of Welsh language content. The service offers unique opportunities to use, enjoy and hear Welsh on a daily basis as well making a significant contribution to the future of the language, the culture and economy of Wales.

During the reporting period of this annual report, S4C relocated its headquarters to Canolfan S4C Yr Egin, a University of Wales Trinity St David development in Carmarthen. As Huw Jones, Chairman of S4C said when the offices were officially opened: “The move to Yr Egin is an important milestone for S4C. We are confident this historic relocation will be a catalyst to support employment in the creative industries and the Welsh language in west Wales. A strong presence in the west as well as in north Wales and the capital will help to ensure the service reflects Wales in its entirety. We are pleased at the number of high-quality jobs we have already been able to offer.”

Both as an organisation and an employer, S4C is committed to developing and facilitating the use of Welsh internally and to helping the public in Wales to use Welsh as part of their everyday life. Being ‘Welsh’ is one of our core values: “The Welsh language is central to everything we do. We celebrate the culture and lives of the people of our country through the medium of the Welsh language. We welcome and encourage everyone who endeavours to communicate through the medium of Welsh, whatever their level of fluency.”

In March 2018, the Department for Digital, Culture, Media and Sport (DCMS) published the Euryn Ogwen Williams review of S4C. One of the review’s recommendations was that S4C could work with the Welsh Government on the target of a million Welsh speakers. In August 2018, S4C and the Welsh Government announced an agreement on the principles for working together to support the Welsh language, with the aim of increasing the number of Welsh speakers. Common strategic areas for the Welsh Government and S4C have been prioritised; supporting learners, education, and children and young people. Technology and working to ensure a place for the Welsh language on platforms and future technology have also been identified as areas which might benefit from S4C’s content and expertise.





S4C YN FEWNOL Gweithredu ar y Safonau

Mae S4C yn cydymffurfio gyda'r safonau sydd wedi ei gosod arni ac wedi parhau i'w gweithredu yn ystod y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, gweithredwyd elfen olaf y safonau oedd wedi eu gosod ar S4C pan lansiwyd Sbec - mewnwyd newydd S4C - oedd gyda dyddiad gweithredu hwyrach na'r safonau eraill sy'n berthnasol i'r sianel er mwyn caniatáu amser ar gyfer newidiadau technegol.

Rydym yn parhau i gadw copi o'r safonau sydd yn berthnasol inni yn y swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd, ar ein gwefan ac ar ein mewnwyd ble mae adran benodol i staff gael manylion am y safonau a'u gofynion. Mae gan S4C bolisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, sy'n cefnogi defnyddio'r iaith wrth ohebu, a chyfathrebu yn ddyddiol. Mae'r polisi hwn hefyd ar ein mewnwyd.

Mae llofnod e-bost pob aelod o staff yn nodi lefel eu rhuglder yn y Gymraeg ac yn egluro y gellir gohebu gyda nhw yn Gymraeg. Ni fyddai rhywun sy'n gohebu â ni yn y Gymraeg yn derbyn unrhyw oedi wrth aros am ymateb. Mae hyn hefyd yn wir am gysylltu â phobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

CYDYMFFURFIAETH - SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU

Mae S4C yn cydymffurfio gyda'r safonau cyflenwi gwasanaethau. Yn ystod y cyfnod dan sylw mae S4C wedi parhau i weithredu y safonau ac i roi ystyriaeth flaenllaw i'r Gymraeg wrth ddarparu ei gwasanaethau i'r cyhoedd.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniodd S4C gwyn oedd yn berthnasol i'r safonau darparu gwasanaethau.

CYDYMFFURFIAETH - SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o ethos a bodolaeth S4C ac yn ystyriaeth wrth inni lunio ein polisïau. Pan fyddwn yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, byddwn yn ystyried sgil effeithiau hynny ar y cyfleoedd i bobl, ac yn enwedig ein staff, i ddefnyddio'r Gymraeg, lle'n berthnasol. Rydym wedi parhau i weithredu hyn yn ystod y flwyddyn. O ran mabwysiadu a chymeradwyo polisïau, mae taflen benodol sydd yn nodi gofynion y safonau wrth lunio polisi ynghlwm wrth y papurau a aiff gerbron bwrdd unedol cysgodol S4C am gymeradwyaeth.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniodd S4C unrhyw gwynion am gydymffurfiaeth S4C gyda'r safonau llunio polisi.

CYDYMFFURFIAETH - SAFONAU GWEITHREDU

Fel y nodwyd uchod, yn ystod y flwyddyn mae S4C wedi lansio Sbec, ei mewnwyd newydd, er mwyn sicrhau bod yr adnodd pwysig hwn i staff yn cydymffurfio â'r safonau perthnasol. Roedd mewnwyd S4C eisoes yn ddwyieithog, ond erbyn hyn mae testun pob tudalen ar Sbec ar gael yn Gymraeg, ac mae dolen uniongyrchol ar bob tudalen Saesneg i'r dudalen Gymraeg gyfatebol.

S4C IN-HOUSE Implementation of the Standards

S4C complies with the standards placed on it and has continued to implement them throughout the year. During the year, the final elements of the standards imposed on S4C were fulfilled. Sbec, S4C's new intranet, had, in order to enable technical changes, been given a later implementation date than the other standards relevant to the channel.

We continue to keep a copy of the standards that apply to us in offices that are open to the public, on our website and on our intranet, which includes a specific section detailing for staff the standards and their requirements. S4C has a policy on using Welsh in the workplace, which supports the use of the language in correspondence and in daily communication. This policy is also on our intranet.

All staff email signatures indicate their level of fluency in Welsh and that they welcome correspondence in Welsh. Anyone who corresponds with us in Welsh will not experience any delay in receiving a response. This also applies to contact with people through social media.

COMPLIANCE - SERVICE DELIVERY STANDARDS

S4C complies with the service delivery standards. During the period in question, S4C has continued to implement the standards and to regard the Welsh language as a prominent consideration in providing its services to the public.

During the reporting period, S4C did not receive complaints relating to the service delivery standards.

COMPLIANCE - POLICY-MAKING STANDARDS

The Welsh language is an important part of S4C's ethos and existence and is a consideration when producing our policies. When we produce a new policy, or review or adapt an existing policy, we always consider consequent impacts on opportunities for people, and especially our staff, to use the Welsh language where relevant. We have continued to implement this throughout the year. A specific cover sheet setting out the requirements of the standards in policy-making is attached to papers submitted to the S4C shadow unitary board for approval.

During the reporting period, S4C did not receive any complaints about S4C's compliance with policy-making standards.

COMPLIANCE - OPERATIONAL STANDARDS

As noted, during the year, S4C launched its new intranet, Sbec, redesigned to ensure this important staff resource complied with the relevant standards. S4C's previous intranet was bilingual, but each page now has a direct link from the English to Welsh and every page is available in Welsh.

ADNODDAU DYNOL


Fel y sianel deledu Gymraeg, mae S4C yn ymfalchïo ei bod yn cynnig y cyfle i weithio yn yr iaith ac mae ein prosesau yn cael eu gweinyddu i alluogi hyn. Rydym yn croesawu ceisiadau swydd gan Gymry Cymraeg, dysgwyr a’r rheiny sydd eisiau dysgu. Rydym yn buddsoddi mewn hyfforddiant Cymraeg ar bob lefel yn ôl y galw, ac yn cynnig dosbarthiadau rhad ac am ddim ar gyfer staff sydd eisiau dysgu. Rydym yn darparu hyfforddiant a chyfleoedd yn ystod oriau gwaith i’n cyflogeion, yn cynnwys penaethiaid a rheolwyr. Rydym wedi parhau i weithredu hyn yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae S4C yn hysbysebu a chyhoeddi swyddi lle mae’r Gymraeg yn hanfodol yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog. Pan nad yw’r Gymraeg yn hanfodol, pennir categori ar gyfer rhuglder wrth hysbysebu’r swydd a gwneir hyn yn ddwyieithog. Prin iawn ydy’r achosion pan nad yw’r Gymraeg yn hanfodol, ac rydym bob amser yn hysbysebu swyddi yn Gymraeg.


Caiff y taflenni isod oll eu cyhoeddi yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

- ffurflenni cais am swyddi;
- gwybodaeth am ein proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi, a
- swydd-ddisgrifiadau.


Fel y cyfeiriwyd eisoes, yn ystod y cyfnod dan sylw, symudodd S4C ei phencadlys i Ganolfan S4C yr Egin yng Nghaerfyrddin. Golygodd hyn ein bod wedi colli nifer o staff profiadol nad oeddent yn gallu symud gyda’r sianel. Ond mae hefyd wedi arwain at hysbysebu a recriwtio nifer helaeth o swyddi sydd wedi eu cartrefu yng Nghaerfyrddin gan gynnig ystod eang o gyfleoedd i weithio yn y Gymraeg.



Cymraeg Rhugl



Dysgwr



Ddim yn siarad Cymraeg

GWEITHLU S4C

Dyma fanylion ynghylch canrannau staff oedd yn meddu’r Gymraeg yn S4C, a’r nifer sy’n derbyn cyrsiau Cymraeg o fewn cyfnod yr adroddiad:

(a) nifer y cyflogeion a weithiodd i S4C yn ystod y cyfnod dan sylw oedd yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg :	
Cymraeg Rhugl	87.1%
Dysgwr	4.6%
Ddim yn siarad Cymraeg	8.3%

(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennym ni yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn: 94

(c) Canran y staff fynychodd fersiwn Gymraeg o gwrs oedd yn cael ei gynnig hefyd yn Saesneg: 69.6%

- (ch) nifer y swyddi newydd a’r swyddi gwag a hysbysebwyd gennym ni yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy’n gofyn:
- i. bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol: 36
 - ii. bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i’r swydd: 2
 - iii. bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol: 10
 - iv. nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol: 0

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw gwynion am gydymffurfiaeth S4C gyda’r safonau gweithredu.

GORUCHWYLIO

Cyn i S4C ddod yn ddarostyngedig i’r safonau, cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu a’i gymeradwyo ac mae ar gael ar fewnwyd a gwefan S4C. Sicrhawyd bod holl egwyddorion y cynllun gweithredu yn cael eu cyfathrebu i staff, gan gynnwys aelodau newydd o staff, ac mae adran benodol yn cynghori ar y safonau ar ein mewnwyd. Mae gan bob cyfarwyddiaeth yn S4C gyfrifoldeb cyffredinol am weithredu Safonau’r Gymraeg yn eu cyfarwyddiaeth eu hunain sy’n berthnasol i’w gwaith gan gynnwys cadw cofnodion a monitro fel ein bod yn gallu adrodd yn flynyddol yn union â’r gofynion arnom.

HUMAN RESOURCES


As the Welsh language television channel, S4C takes pride in offering the opportunity to work through the medium of Welsh and our processes are administered to enable this. We welcome job applications from Welsh speakers, learners and those who wish to learn. We invest in Welsh language training at all levels as required and offer free classes for staff who wish to learn. We provide training and opportunities during working hours for our employees, including heads of departments and managers. We have continued to implement this throughout the reporting period.

During the period in question, S4C has advertised and publicised posts where Welsh is essential in Welsh only or bilingually. Where Welsh is not essential, a fluency category is determined when advertising the post and advertisements are bilingual. There are very few cases where Welsh is not essential, and we always advertise jobs in Welsh.


The following documents are published in Welsh or bilingually:

- job application forms;
- information about our interviewing process, or any other assessment methods used in job applications, and
- job descriptions.


As mentioned, during the period in question, S4C moved its headquarters to Canolfan S4C yr Egin in Carmarthen. This meant we lost a number of experienced staff who were unable to relocate with the channel. However, it also led to the advertisement and recruitment of a significant number of roles in Carmarthen, offering a wide range of opportunities to work through the medium of Welsh.



Fluent in Welsh



Welsh learner



Non-Welsh-speaking

S4C’s WORKFORCE

Here are details of the percentages of Welsh-speaking staff at S4C, and those taking part in Welsh courses within reporting period:

(a) number of employees with Welsh language skills working for S4C during the period in question:	
Fluent in Welsh	87.1%
Welsh learner	4.6%
Non-Welsh-speaking	8.3%

(b) number of staff members attending training courses offered by us through the medium of Welsh during the year: 94

(c) Percentage of staff attending a Welsh-medium course that was also offered in English: 69.6%

- (d) number of new jobs and vacancies advertised by us during the year categorised according to the following requirements:
- i. Welsh language skills essential: 36
 - ii. requirement to acquire Welsh language skills when appointed to the post: 2
 - iii. Welsh language skills desirable: 10
 - iv. no Welsh language skills necessary: 0

During the reporting period, we did not receive any complaints about S4C’s compliance with operational standards.

SUPERVISION

Before S4C became subject to the standards, an implementation plan was developed and approved and is available on S4C’s intranet and website. All the principles of the action plan were communicated to staff, including new joiners, and a specific section with advice on the standards is available on our intranet. Each directorate within S4C has a general responsibility for implementing the Welsh Language Standards in their own directorate according to relevance to their work, including record-keeping and monitoring, so that we can report annually in accordance with the requirements placed on us.



Cysylltu gydag S4C

Mae S4C wastad yn falch i glywed barn ein gwylwyr. Os ydych yn dymuno cyflwyno eich barn am ein rhaglenni neu os ydych eisiau gwybodaeth bellach, fe fyddem yn falch i glywed gennych.

Fe allwch gysylltu ag S4C yng Nghaerfyrddin, yng Nghaerdydd neu Gaernarfon, dros y ffôn, drwy ebost, twitter, facebook neu drwy lythyr.

Gwefan
s4c.cymru

Ebost
s4c@s4c.cymru

Gwifren
0370 600 4141

Canolfan S4C Yr Egin
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Swyddfa Caerdydd
S4C Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Swyddfa Caernarfon S4C
Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

Mae croeso i chi gysylltu ag S4C yn y Gymraeg, ac os byddwch chi’n gwneud hynny byddwn yn ateb yn y Gymraeg ac ni fydd oedi oherwydd hynny.

Cysylltwch â ni os hoffech gael fersiwn hygyrch o’r ddogfen hon.

Contact S4C

S4C is always pleased to hear our viewers’ opinions. If you want to share your opinion about our programmes or if you want further information, we’d be happy to hear from you.

You can contact S4C in Carmarthen, Cardiff or Caernarfon, by phone, email, twitter, facebook or by letter.

Website
s4c.cymru

Email
s4c@s4c.cymru

Gwifren
0370 600 4141

Canolfan S4C Yr Egin
Carmarthen
SA31 3EQ

Swyddfa Caerdydd
S4C Parc Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU

Caernarfon Office
S4C Doc Fictoria
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1TH

You are welcome to contact S4C in Welsh, and if you do so we will respond in Welsh and this will not lead to any delays.

Contact us if you would like an accessible version of this document.

